# Crynodeb o’r Ymgynghoriad ar y Llawlyfr ar gyfer yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru

1 Aeth QAA ati rhwng 13 Awst a 14 Medi 2020 i gynnal ymgynghoriad ar y llawlyfr ar gyfer yr adolygiad datblygiadol o Brentisiaethau Gradd yng Nghymru ar gyfer sesiwn academaidd 2020-21.[1]

2 Rhoddwyd gwahoddiad i ymatebwyr gynnig sylwadau ar y dull arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiad, p’un a fyddai digon o wybodaeth yn cael ei darparu, llinell amser, ystyriaethau ar gyfer cyflwyno rhithwir, deilliannau’r adolygiad a chanlyniadau anfwriadol y broses adolygu (er enghraifft effeithiau posibl ar gydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant neu gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg).[2]

3 Derbyniwyd 10 ymateb yn cynrychioli darparwyr, partneriaid a chyrff eraill o fewn y sector.

4 Mae’r prif themâu a godwyd gan ymatebwyr fel a ganlyn:

a. Yr amserlen ar gyfer y broses adolygu
b. Perthynas yr adolygiad â'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru
c. Heriau wrth ymgysylltu â phrentisiaid
d. Effaith COVID-19 ar gynnal yr adolygiad

5 Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r ymatebion i gwestiynau pegynol yn yr arolwg:

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| 2: A ydych chi'n credu y gall y dull arfaethedig gyflawni ei bwrpas fel adolygiad datblygiadol a chynorthwyo dysgu a datblygu darparwyr wrth iddynt gyflwyno Prentisiaethau Gradd? | Ydw - 100%<br>Nac ydw - 0% |
| 3: A yw'r llawlyfr drafft yn darparu digon o wybodaeth i baratoi a chynnal yr adolygiadau? | Ydy - 100%<br>Nac ydy - 0% |
| 3b: A oes unrhyw feysydd sydd angen gwybodaeth/ eglurhad pellach? | Oes - 60%<br>Nac oes - 40% |
| 4: O ystyried yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen adolygu yn gyffredinol, a yw'r rhaglen adolygu ar gyfer adolygiad unigol (Atodlen B: Llinell-amser ar gyfer adolygiad darparydd) yn rhesymol? | Ydy - 30%<br>Nac ydy - 70% |
| 4b: A oes unrhyw argymhellion ar gyfer addasiadau o ran amseriad a threfn y gweithgareddau? | Oes - 60%<br>Nac oes - 40% |
| 5: A yw'r dull arfaethedig o ddefnyddio llwybrau rhaglenni’n briodol? | Ydy - 100%<br>Nac ydy - 0% |

[1] Mae'r adolygiad yn ymwneud â Phrentisiaethau Gradd a ariennir trwy CCAUC yn unig, sef y rhai sydd wedi bod ar gael fel rhan o gynllun peilot ers 2018-19, gan gwmpasu tri maes blaenoriaeth: Digidol, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch.
[2] Gweler Atodlen 1 am set lawn o gwestiynau’r ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| 5b: A oes unrhyw addasiadau a fyddai'n sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol? | Oes - 60%<br>Nac oes - 40% |
| 6: A oes unrhyw faterion pellach i'w hystyried os oes angen cynnal rhan o'r adolygiad, neu'r holl adolygiad, yn rhithwir? | Oes - 70%<br>Nac oes - 30% |
| 7: A yw deilliannau'r adolygiad (argymhellion ac arfer da) wedi'u diffinio'n briodol? | Ydyn - 100%<br>Nac ydyn - 0% |
| 7b: A fydd y broses ar gyfer adrodd yn ôl yn galluogi rhannu arfer yn effeithiol? | Bydd - 70%<br>Na fydd - 30% |
| 8: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o'r broses adolygu arfaethedig, er enghraifft, o ran cydraddoldeb ac amrywioldeb neu'r Gymraeg? | Oes - 20%<br>Nac oes - 80% |

6 Yn seiliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad, mae QAA wedi diwygio'r llawlyfr o ran y broses adolygu i gynorthwyo darparwyr, partneriaid, prentisiaid a chyflogwyr fydd yn ymgymryd â'r adolygiad yn ystod sesiwn academaidd 2020/21.

7 Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae QAA wedi ymateb i'r prif bryderon a amlygwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad:

| **Prif thema / maes sydd angen ei egluro** | **Newid yn y llawlyfr / y broses adolygu** |
|---|---|
| Llinell amser ar gyfer gweithgaredd adolygu | Yn dilyn pryderon helaeth ynghylch y llinell amser ar gyfer y broses adolygu, mae QAA wedi newid y Llinell Amser ar gyfer y Rhaglen Adolygu (Atodiad A) i ganiatáu mwy o amser i ddarparwyr baratoi'r ddogfennaeth briodol trwy ymestyn y cyfnod paratoi hyd fis Chwefror, gyda'r ymweliadau adolygu wedi'u haildrefnu i ddigwydd ym Mawrth ac Ebrill 2021. Bydd y llinell amser hon yn sicrhau bod yr adroddiadau trosolwg yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno i CCAUC erbyn Mehefin 2021 (gweler atodlenni A a B). |
| Y berthynas rhwng yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd a'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru | Diweddarwyd y llawlyfr i nodi nad yw'r adolygiad hwn yn rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru. Felly, mae hyn y tu allan i'r Adolygiad Gwelliant Ansawdd (QER) ar gyfer sefydliadau rheoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, efallai y bydd darparwyr am rannu eu hadroddiad fel rhan o ymgysylltu â phroses sicrhau ansawdd allanol yn y dyfodol (gweler paragraff 5). |
| Ymgysylltu â phrentisiaid / llais prentisiaid | Mae QAA wedi newid cyfeiriadau at ddysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Gradd o 'fyfyrwyr' i 'brentisiaid' i adlewyrchu'r ffaith mai eu gweithle yw eu prif fan dysgu (gweler paragraff 7). O ganlyniad i hyn, mae rôl 'Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr' wedi'i newid i 'Prif Gynrychiolydd Prentisiaid' (gweler paragraffau 37 - 41) ac mae'r 'cyflwyniad gan fyfyrwyr' wedi'i ailenwi'n 'gyflwyniad gan brentisiaid' (gweler y paragraffau 34 - 36 ac Atodlen C).<br><br>Dylai Prif Gynrychiolydd y Prentisiaid, lle bo hynny'n bosibl, gael ei benodi gan y prentisiaid eu hunain. Fodd bynnag, gall cynrychiolydd myfyrwyr ymgymryd â'r rôl hon, er enghraifft, swyddog etholedig o'r corff cynrychioli myfyrwyr (gweler paragraff 37). |

| | |
|---|---|
| | Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys pryderon ynghylch ymgysylltu â phrentisiaid fel rhan o'r broses adolygu. Mae QAA wedi diweddaru'r llawlyfr i adlewyrchu'r pryder hwn ac wedi nodi efallai na fydd yn bosibl cael cyflwyniad gan brentisiaid. Felly, mae'n bosibl y caiff cyflwyniadau gan brentisiaid eu paratoi trwy gyrff cynrychioli myfyrwyr mewn partneriaeth â phrentisiaid (gweler y paragraffau 34 - 36 ac Atodlen C). |
| Adolygiadau yn ystod COVID-19 | Mae'r llawlyfr yn cydnabod bod cyfyngiadau COVID-19 yn parhau i fod ar waith ledled y DU, gan gynnwys amodau clo o fewn ardaloedd llawer o gynghorau sir yng Nghymru. Mae QAA yn cydnabod y bydd angen i'r dull ar gyfer cyflwyno'r adolygiad fod yn hyblyg, a bydd yn sicrhau bod timau adolygu'n gweithredu yn unol â'r canllawiau iechyd cyhoeddus diweddaraf. Gydag adolygiadau'n cael eu cynnal yn Nhymor y Gwanwyn, mae QAA yn cydnabod bod potensial i rywfaint o'r broses adolygu neu'r cyfan ohoni gael ei chynnal yn rhithwir. Bydd QAA yn darparu canllawiau pellach ynghylch cynnal adolygiadau ar-lein er mwyn sicrhau hyder i bawb sy'n rhan o'r broses adolygu (gweler paragraff 9). |
| Ffocws datblygiadol yr adolygiad | Mae QAA wedi diweddaru rhywfaint o'r iaith a'r termau allweddol yn y llawlyfr i adlewyrchu natur ddatblygiadol yr adolygiad:<br>• Dadansoddiad myfyriol - mae'r 'dadansoddiad hunanwerthusol' wedi'i newid i 'ddadansoddiad myfyriol' er mwyn cynrychioli'r broses adeiladol o ystyried datblygiad y ddarpariaeth bresennol (gweler paragraffau 28 - 32).<br>• Meysydd i'w datblygu - mae 'argymhelliad' wedi'i newid i 'faes i'w ddatblygu' gyda diffiniad diwygiedig i adlewyrchu natur ddatblygiadol yr adolygiad: 'maes i'w ddatblygu yw maes o fewn dyluniad, strwythur a chyflwyno Prentisiaethau Gradd y gellir ei wella neu ei addasu er mwyn cryfhau a gwella'r modd y cyflwynir rhinweddau / nodweddion unigryw darpariaeth Prentisiaeth Gradd y darparydd' (gweler paragraff 26) . |

8 Cyhoeddir y llawlyfr diwygiedig yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 12 Hydref 2020, gyda sesiwn ragwybodaeth ar gyfer darparwr yn cael ei chynnal ddydd Llun 2 Tachwedd am 2:00pm fydd yn para hyd at 90 munud ar ffurf gweminar.

# Atodlen 1 - Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Gwybodaeth amdanoch chi

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn cynorthwyo ein dealltwriaeth o'r gwahanol garfannau o ymatebwyr a'u safbwyntiau. Yn unol â'n hamserlen ar gyfer cadw gwybodaeth, rydym yn dileu ymatebion unigol i ymgynghoriadau cyn pen chwe mis ar ôl eu derbyn. Os ydych chi am wybod mwy am sut rydyn ni'n storio'ch data, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd. Ni fydd sylwadau yn ein dadansoddiad yn cael eu priodoli i unigolion na sefydliadau penodol.

Er nad oes rheidrwydd arnoch i ddarparu'r wybodaeth hon, byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i ni wrth fynd ati i ddadansoddi sylwadau.

**Cwestiwn 1: Gwybodaeth amdanoch chi**

- Eich enw
- Eich rôl
- Eich sefydliad / mudiad
- Ydych chi'n ymateb:
  - ar ran eich darparydd
  - fel unigolyn
  - fel cyflogwr
  - ar ran coleg sy'n bartner i chi
  - ar ran corff cynrychioli myfyrwyr
  - arall (*rhowch fanylion os gwelwch yn dda*)

### Y dull gweithredu cyffredinol

Cynlluniwyd yr adolygiad o Brentisiaethau Gradd i fod yn adolygiad datblygiadol sy'n canolbwyntio ar sut mae darparwyr addysg uwch yn cyflwyno rhaglenni Prentisiaethau Gradd, gan gynnwys dysgu yn y gweithle. Ei nod yw darparu gwybodaeth am sut mae Prentisiaethau Gradd yn cael eu datblygu, ynghyd â darparu gwybodaeth a all lywio polisïau a blaenoriaethau yn y dyfodol.

Bydd yr adolygiad yn defnyddio Datganiad Nodweddion ar gyfer Addysg Uwch mewn Prentisiaethau QAA fel ei brif gyfeirbwynt. Bydd yn dynodi arfer da ac yn gwneud argymhellion er mwyn sicrhau trefniadau dibynadwy ar gyfer ansawdd a safonau. Bydd adroddiad ar gyfer y sector cyfan yn rhannu dysgu a datblygiad ar draws yr holl ddarparwyr yng Nghymru.

Nodir pwrpas yr adolygiad yn y cyflwyniad i'r llawlyfr drafft, ac mae amcanion y broses adolygu i'w gweld ym mharagraff 7.

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu y gall y dull arfaethedig gyflawni ei bwrpas fel adolygiad datblygiadol a chynorthwyo dysgu a datblygu darparwyr wrth iddynt gyflwyno Prentisiaethau Gradd?**

ydw / nac ydw

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

Ceir esboniad o'r broses adolygu ym mharagraffau 9 a 10 o'r llawlyfr drafft. Mae adrannau pellach o'r llawlyfr yn esbonio'r elfennau hyn o'r adolygiad mewn mwy o fanylder, gan gynnwys yr atodlenni.

**Cwestiwn 3: A yw'r llawlyfr drafft yn darparu digon o wybodaeth i baratoi a chynnal yr adolygiadau?**

ydy / nac ydy

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

**A oes unrhyw feysydd sydd angen gwybodaeth/ eglurhad pellach?**

oes / nac oes

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

## Manylion y broses adolygu

Adolygiad unwaith ac am byth yw hwn sy'n cael ei gynnal yn y flwyddyn academaidd 2020-21, a'r nod yw y bydd ei ddeilliannau'n ffurfio sail i werthusiad ehangach o'r ddarpariaeth o brentisiaethau. Er bod faint o hyblygrwydd sydd o ran amseru yn gyfyngedig, mae QAA yn awyddus i sicrhau bod rhaglen ac amseriad y gweithgareddau yn galluogi darparwyr a'u partneriaid i gymryd rhan lawn yn y broses adolygu.

**Cwestiwn 4: O ystyried yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen adolygu yn gyffredinol, a yw'r rhaglen adolygu ar gyfer adolygiad unigol (Atodlen B: Llinell-amser ar gyfer adolygiad darparydd) yn rhesymol?**

ydy / nac ydy

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

**A oes unrhyw argymhellion ar gyfer addasiadau o ran amseriad a threfn y gweithgareddau?**

oes / nac oes

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

Mae casglu samplau o ddarpariaeth Prentisiaethau Gradd ar gyfer pob prif ddarparydd yn nodwedd ofynnol o'r adolygiad. Mae'r dull adolygu'n defnyddio llwybrau rhaglenni, yn seiliedig ar adolygiad blaenorol o Raddau Sylfaenol yng Nghymru, i gasglu samplau o'r ddarpariaeth. Y dull gweithredu a ddefnyddir bydd dewis un llwybr ar gyfer pob Fframwaith

Prentisiaeth Gradd. Mae llwybrau rhaglen yn ffurfio sail ar gyfer dewis pa gyflogwyr i ymweld â nhw. Mae angen i'r dull hwn wneud deilliannau'r adolygiad mor ddefnyddiol i'r sector â phosibl, ar yr un pryd â bod yn gymesur o ran graddfa'r ddarpariaeth ac yn rhesymol i ddarparwyr sy'n ymwneud â'r adolygiad. Mae manylion pellach am sut y bwriedir i lwybrau rhaglenni weithio i'w gweld ym mharagraffau 51 i 56 o'r llawlyfr drafft.

**Cwestiwn 5: A yw'r dull arfaethedig o ddefnyddio llwybrau rhaglenni'n briodol?**

ydy / nac ydy

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

**A oes unrhyw addasiadau a fyddai'n sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol?**

oes / nac oes

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

Mae'n debygol y bydd angen cynnal rhywfaint o'r ymweliadau adolygu, os nad y cyfan ohonynt, yn rhithwir oherwydd pandemig COVID-19. Bydd QAA yn gweithio'n agos gyda darparwyr, partneriaid a chyflogwyr i sicrhau bod yr adolygiad yn gweithredu yn unol â'u gweithdrefnau a chanllawiau iechyd cyhoeddus. Bydd darparwyr eisoes wedi cael profiad o gynnal eu busnes yn rhithwir, a byddant wedi dysgu gwersi gwerthfawr am gynnal cyfarfodydd ar-lein.

**Cwestiwn 6: A oes unrhyw faterion pellach i'w hystyried os oes angen cynnal rhan o'r adolygiad, neu'r holl adolygiad, yn rhithwir?**

oes / nac oes

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

Mae'r adolygiad wedi cael ei gynllunio fel adolygiad datblygiadol gyda deilliannau a fydd yn cynorthwyo gwahanol randdeiliaid i fwrw ymlaen â'r ddarpariaeth. Mae'r deilliannau'r adolygiad, ynghyd ag argymhellion ac arfer da, (gweler paragraffau 23 a 24) wedi cael eu cynllunio i gynorthwyo datblygiad nodweddion prentisiaethau gradd.

Bydd prif ddarparwyr yn derbyn adroddiad na chaiff ei gyhoeddi, a bydd adroddiad trosolwg yn cael ei gyhoeddi er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen adolygu yn ei chyfanrwydd (paragraff 25).

**Cwestiwn 7: A yw deilliannau'r adolygiad (argymhellion ac arfer da) wedi'u diffinio'n briodol?**

ydyn / nac ydyn

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

**A fydd y broses ar gyfer adrodd yn ôl yn galluogi rhannu arfer yn effeithiol?**

bydd / na fydd

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

## Cwestiynau i gloi

Ar gyfer y gwaith adolygu hwn, mae'n ofynnol i QAA gydymffurfio â Chynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC.[3] Yn ogystal, bydd QAA hefyd yn gweithio yn unol â'i bolisi Cydraddoldeb ac Amrywioldeb ei hun[4] sy'n ffurfio sail i'w waith gyda'r rheiny a gyflogir, cwsmeriaid a phartneriaid.

Mae QAA yn cydnabod hawl unrhyw berson i ddefnyddio'r Gymraeg a hawl unrhyw adolygydd dwyieithog i siarad Cymraeg. Rydym yn parchu'r gwahaniaethau hyn, a byddwn yn ceisio penodi rheolwyr adolygiadau ac adolygwyr dwyieithog. Mae'r llawlyfr drafft yn cynnwys datganiad ar ein hymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein hadolygiadau (gweler Atodiad D).

**Cwestiwn 8: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o'r broses adolygu arfaethedig, er enghraifft, o ran cydraddoldeb ac amrywioldeb neu'r Gymraeg?**

oes / nac oes

**Sut gallai QAA fynd ati i liniaru'r deilliannau hyn?**

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

**Cwestiwn 9: A oes gennych chi ragor o sylwadau am y dull o weithredu y bwriedir ei ddefnyddio?**

*Rhowch sylwadau ynghylch eich ateb*

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg.*

Hydref 2020

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2020
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

Ffôn: 01452 557000
www.qaa.ac.uk

[3] https://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/equality_and_diversity/strat_eq_plan_cy.aspx
[4] www.qaa.ac.uk/about-us/how-we're-run/qaa-policies